



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cod Ymarfer

## Cosbrestu yn y Diwydiant Adeiladu

Nodyn Cyngor Polisi (PAN)  
ar gyfer y Sector Cyhoeddus yng Nghymru



# Cynnwys

1.	Cyflwyniad	3
	(i) Pwyntiau i'w Nodi	3
	(ii) Materion yr Eir i'r Afael â Nhw	3
2.	Beth yw Cosbrestru?	4
3.	Fframwaith Deddfwriaethol	5
4.	Y Sefyllfa ym mis Mai 2017	6
5.	Mynd i'r afael â Chosbrestru drwy Gaffael	7
6.	Canllawiau ac Adnoddau	9
7.	Cydnabyddiaethau	9

# 1. Cyflwyniad

## (i) PWYNTIAU I'W NODI – gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen yr adran hon yn gyntaf

- Nid cyngor cyfreithiol yw'r wybodaeth a roddir yn y ddogfen hon ac ni fwriedir iddi fod yn gynhwysfawr – dylai awdurdodau contractio geisio eu cyngor annibynnol eu hunain fel y bo'n briodol. Dylech hefyd gofio bod y gyfraith yn newid yn gyson a dylid ceisio cyngor mewn achosion unigol. Mae'r ddogfen hon yn adlewyrchu'r sefyllfa ym mis Mai 2017.
- Mae'r Nodyn Cyngor Polisi (PAN) hwn yn adeiladu ar y wybodaeth a geir yn y Canllawiau Cynllunio Caffael (CCCau) yn <http://prp.wales.gov.uk> ac yn gyson â hi, felly mae'r nodyn yn tybio lefel benodol o wybodaeth am gaffael cyhoeddus.
- Er bod y nodyn canllaw hwn yn ymwneud â chosbrestru yn y diwydiant adeiladu yn bennaf, mae'r egwyddorion yr un mor gymwys i ddiwydiannau/sectorau eraill.

## (ii) Materion yr Eir i'r Afael â Nhw

Cafodd y Nodyn Cyngor Polisi (PAN) hwn ei lunio gyntaf gan Lywodraeth Cymru yn 2013 ac mae bellach wedi cael ei ddiweddarau. Bwriedir iddo hysbysu sefydliadau'r sector cyhoeddus am gosbrestru/y defnydd o restrau gwaharddedig sy'n ymwneud ag unigolion yn y diwydiant adeiladu (neu unrhyw ddiwydiant arall). Mae'r nodyn hwn yn manylu ar gefndir cosbrestru/y defnydd o restrau gwaharddedig, yn amlinellu'r ddeddfwriaeth berthnasol sy'n gymwys yn y maes hwn ac yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf. Bydd y nodyn hwn o ddiddordeb arbennig i staff sy'n ymwneud â chaffael a chyflawni gweithgareddau adeiladu.

## 2. Beth yw 'cosbrestru'?

Yn ôl Llywodraeth y DU mae a wnelo cosbrestru â'r broses systematig o ddwyn ynghyd wybodaeth am undebwyr llafur unigol a'i defnydd gan gyflogwyr a recriwtwyr i wahaniaethu yn erbyn yr unigolion hynny sy'n aelodau o undeb llafur neu sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau undeb llafur.

Mewn deddfwriaeth cosbrestru benodol, cyfeirir at gosbrestru fel 'rhestrau gwaharddedig' mewn perthynas â gweithgareddau undeb llafur. Fodd bynnag, gallai cosbrestr gynnwys mwy o fanylion am unigolion sydd wedi codi pryderon, er enghraifft, o ran iechyd a diogelwch a/neu faterion amgylcheddol.

Gall cosbrestru fod yn niweidiol iawn i yrfaeod a bywoliaeth unigolion nad ydynt yn cael manteisio ar gyfleoedd gwaith. Gwyddom iddo gael ei ddefnyddio gan gwmnïau adeiladu sy'n gweithredu yng Nghymru ac iddo gynnwys gweithwyr adeiladu o Gymru.

Mae'r arfer o gosbrestru unigolion yn anghyfreithlon a chyflwynwyd deddfwriaeth i'w wahardd. Felly, mae'n bwysig bod sefydliadau'r sector cyhoeddus yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth berthnasol a sut y'i rhoddir ar waith.

### **Cefndir 'cosbrestru'**

Yn 2009, daeth cosbrestru yn y diwydiant adeiladu i'r amlwg ar lefel genedlaethol. Cafwyd cryn sylw yn y cyfryngau i'r ffaith bod Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) wedi cynnal ymchwiliad i fusnes preifat o'r enw The Consulting Association (TCA).

Canfu'r ICO fod TCA wedi bod yn darparu gwasanaeth i fwy na 40 o gwmnïau adeiladu, yr oedd llawer ohonynt yn brif gwmnïau yn y sector adeiladu, gan arfarnu pa mor addas oedd unigolion i'w cyflogi. Daeth o hyd i gosbrestr a ffeiliau yn cynnwys gwybodaeth helaeth am fwy na 3300 o unigolion ledled y DU, a ddefnyddiwyd i fetio unigolion ac atal pobl rhag cael eu cyflogi am resymau a oedd yn cynnwys bod yn aelod o undeb llafur neu fod â phryderon iechyd a diogelwch. Credir bod mwy na 100 o'r unigolion hyn a nodwyd eisoes yn byw yng Nghymru.

Cafodd unigolyn a oedd yn rhedeg TCA ei erlyn yn dilyn hynny a chafodd ddirwy am fethu â chydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1988 a chofrestru fel rheolwr data.

### 3. Fframwaith Deddfwriaethol

#### Fframwaith Deddfwriaethol y DU sy'n berthnasol i gosbrestru

Mae cosbrestru yn gymwys i sawl maes deddfwriaethol (a nodir isod) ond, yn dilyn ymchwiliad TCA, penderfynodd Llywodraeth y DU nad oedd y darpariaethau presennol hyn yn ddigonol i fynd i'r afael â'r broblem yn effeithiol. O ganlyniad, cyflwynwyd rheoliadau Cosbrestru penodol yn sgil cyhoeddi Rheoliadau Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999 (Cosbrestrau) 2010 (OS 2010/493). Mae'r Rheoliadau Cosbrestru yn gwahardd llunio, defnyddio, gwerthu neu gyflenwi "rhestrau gwaharddedig", sef rhestrau sy'n cynnwys manylion aelodau undebau llafur neu actifyddion, boed yn rhai presennol neu flaenorol, a ddefnyddir at ddibenion fetio cyflogaeth.

#### Deddf Diogelu Data 1998

Mae creu, cyflenwi neu ddefnyddio cosbrestr yn debygol o arwain at dorri Deddf 1998. Mae'r Ddeddf hon yn rheoli'r ffordd y caiff gwybodaeth bersonol ei defnyddio gan sefydliadau, busnesau neu'r llywodraeth. Mae gan yr ICO bwerau i sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Diogelu Data 1998 a chyfreithiau cysylltiedig. Yn eu plith mae erlyniad troseddol, gorfodi anhroseddol ac archwilio.

Rhaid i unrhyw un sy'n prosesu gwybodaeth bersonol hysbysu'r ICO, cofrestru â hi fel rheolwr data a chydymffurfio ag wyth egwyddor y Ddeddf Diogelu Data. Bydd yr ICO yn diweddarau'r gofrestr o reolwyr data, sydd ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio. Os bydd unigolyn wedi bod yn gweithredu cosbrestr, ni fydd ganddo unrhyw reswm dilys dros brosesu gwybodaeth unigolyn yn y fath fodd. Drwy weithredu rhestr o'r fath, gall unigolion gael eu herlyn am fethu â chydymffurfio â'r Ddeddf a methu â chofrestru fel rheolwr data, fel yn achos unigolyn yn y TCA.

#### Deddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992

Ymhlith pethau eraill, mae'r Ddeddf yn diffinio undebau llafur ac yn nodi eu bod yn rhwym wrth hawliau a dyletswyddau cyfreithiol. Mae'n diogelu hawliau gweithwyr i drefnu neu adael undeb heb unrhyw wahaniaethu nac effaith andwyol arall.

Roedd Adran 137 o'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn anghyfreithlon i wrthod cyflogi rhywun am ei fod yn aelod neu ddim yn aelod o undeb llafur. Felly, gall cosbrestru gweithwyr arwain at hawliadau tribiwnlys cyflogaeth o dan Adran 137 o Ddeddf 1992.

#### Rheoliadau Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999 (Cosbrestrau) 2010

Mae Rheoliadau Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999 (Cosbrestrau) 2010 yn gwneud y canlynol, ymhlith pethau eraill:

- diffinio rhestr waharddedig (e.e. cosbrestr) a gwahardd llunio, rhannu a defnyddio rhestrau gwaharddedig;
- ei gwneud yn anghyfreithlon i wrthod cyflogi rhywun, diswyddo cyflogai neu, fel arall, achosi anfantais i weithiwr am reswm sy'n gysylltiedig â rhestr waharddedig;
- ei gwneud yn anghyfreithlon i asiantaeth gyflogi wrthod darparu gwasanaeth i weithiwr am reswm sy'n gysylltiedig â rhestr waharddedig;
- galluogi'r tribiwnlys cyflogaeth i wrando cwynion am achosion honedig o dorri'r rheoliadau;
- fel dewis amgen, galluogi'r llysoedd i wrando cwynion gan unrhyw un sy'n dweud ei fod wedi dioddef colled neu gollod bosibl yn dilyn achos o dorri'r rheoliadau.

Gellir cymryd camau yn erbyn torri'r gwaharddiad cyffredinol rhag llunio, defnyddio, gwerthu neu gyflenwi rhestr waharddedig yn y llysoedd sifil fel achos o dorri dyletswydd statudol.

## 4. Y Sefyllfa ym mis Mai 2017

### Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau cadarn yn erbyn cosbrestru a hi oedd y Llywodraeth gyntaf i'w gondemnio'n gyhoeddus. Ym mis Mehefin 2013, cyhoeddodd Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid ar y pryd, Ddatganiad Ysgrifenedig yn condemnio'r defnydd o gosbrestrau. Mae'r datganiad ar gael yn y ddolen isod: <http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2013/blacklisting/?lang=cy>

Hefyd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y fersiwn gyntaf o'r Nodyn Cyngor Caffael hwn, gan amlinellu'r camau gorau posibl y gellir eu cymryd drwy gaffael cyhoeddus er mwyn mynd i'r afael â'r problemau sy'n deillio o gosbrestru mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfreithiol. Diweddarwyd hwn bellach i adlewyrchu'r datblygiadau a fu dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'r PAN cyfredol hwn yn rhan o'r pecyn cymorth a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, sydd hefyd yn cynnwys Canllaw newydd ar drechu Cosbrestru sy'n cynnwys manylion ymarferol ar gyfer prynwyr a chyflenwyr yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

### Ymchwiliad Pwyllgor Materion yr Alban

Lansiodd Pwyllgor Dethol Materion yr Alban ei Ymchwiliad i Gosbrestru yn 2012.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad interim cyntaf, sef 'Blacklisting in Employment', ym mis Ebrill 2013 gan ganolbwyntio'n benodol ar waith The Consulting Association (TCA). Mae ymchwiliad y Pwyllgor wedi parhau i fynd rhagddo yn y blynyddoedd

wedyn a chyhoeddwyd sawl adroddiad, gyda'r adroddiad terfynol, sef 'Blacklisting in Employment: Final Report', yn cael ei gyhoeddi yn 2015, a ganolbwyntiodd ar Gynllun lawndal y Gweithwyr Adeiladu (TCWCS), a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2014.

Canmolwyd Llywodraeth Cymru gan Ian Davison AS, Cadeirydd y Pwyllgor, a ddywedodd fod ei hagwedd foesegol tuag at y mater hwn wedi bod yn gwbl glir a chadarn ac wedi darparu arweiniad gwleidyddol y mae llawer o gyrff eraill yn y sector cyhoeddus wedi ei ddilyn wedyn.

Yn ei adroddiadau, nododd y Pwyllgor sut y gall cwmnïau sydd wedi cosbrestru wneud iawn am hynny a chynnal proses 'hunan-lanhau'. Mae'r adroddiadau yn cynnwys nifer o argymhellion y mae Llywodraeth y DU yn eu hystyried. Ceir rhagor o wybodaeth am yr Ymchwiliad yn y ddolen ganlynol:

[www.parliament.uk/blacklisting-in-employment](http://www.parliament.uk/blacklisting-in-employment)

### Gorchymyn Ymglyfreitha Grŵp yr Uchel Lys

Daeth brwydr gyfreithiol hirfaith yn y Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol i ben ym mis Mai 2016, gyda gweithwyr a gosbrestrwyd yn derbyn ymddiheuriad gan y cwmnïau adeiladu a oedd ynghlwm wrth yr arfer, a hefyd iawndal.

## 5. Mynd i'r afael â Chosbrestru drwy Gaffael

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r materion cyfreithiol sydd ynghlwm wrth fynd i'r afael â chosbrestru drwy gaffael. Canllaw yn unig yw'r ddogfen hon ac ni ddylid ei hystyried yn gyfystyr â chynghor cyfreithiol priodol.

### A all awdurdodau contractio wahardd cosbrestrwyr?

Mewn egwyddor, gallant, oherwydd gall cosbrestru fod yn un o'r rhesymau dros wahardd yn ôl disgrisiwn o dan Reoliad 57(8) o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 oherwydd gallai fod naill ai'n gyfystyr â thorri cyfreithiau llafur o dan Reoliad 57(8)(a) neu achos o gamymddwyn proffesiynol difrifol o dan Reoliad 57(8)(c) ac felly gellid cyfiawnhau gwahardd gweithredwr economaidd. Fodd bynnag:

- rhaid i'r gwaharddiad fod yn gymesur (gweler isod) a chael ei ystyried fesul achos – ni fyddai gwaharddiad cyffredinol yn gyfreithlon;
- rhaid cyfiawnhau'r gwaharddiad ar sail tystiolaeth – er enghraifft, y gweithredwr economaidd yn cyfaddef camwedd neu benderfyniad tribiwnlys, llys neu gorff cyhoeddus arall sy'n cyflawni swyddogaethau tebyg. Mewn theori, gall fod modd dibynnu ar dystiolaeth arall ond, yn ymarferol, mae'n anodd rhagweld amgylchiadau lle bydd tystiolaeth arall yn ddigonol;
- nid yw gwaharddiad yn ffordd o gosbi gweithredwyr economaidd am gamwedd blaenorol, ond yn hytrach mae'n ffordd o unioni camwedd blaenorol a sicrhau nad yw'n digwydd eto (hunan-lanhau, gweler isod).

### Pryd y bydd gwaharddiad yn gymesur? Cysyniad hunan-lanhau

Mae cysyniad hunan-lanhau yn cwmpasu amgylchiadau lle mae gweithredwr economaidd wedi cymryd camau i unioni ei gamwedd blaenorol a'i atal rhag digwydd eto. Lle mae gweithredwr economaidd wedi hunan-lanhau, byddai gwaharddiad yn anghymesur yn gyffredinol.

Yn ôl Rheoliad 57(13) o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, lle mae'r rhesymau dros wahardd yn gymwys i weithredwr economaidd, caiff gyflwyno tystiolaeth sy'n dangos bod y camau a gymerwyd yn ddigonol i ddangos ei ddibynadwyedd er bod rheswm perthnasol dros ei wahardd. Os bydd yr awdurdod contractio o'r farn bod y cyfryw dystiolaeth yn ddigonol, ni chaiff y gweithredwr economaidd dan sylw ei wahardd o'r weithdrefn gaffael.

Er mwyn hunan-lanhau, rhaid i'r gweithredwr economaidd brofi'r canlynol:

- (a) ei fod wedi talu neu ymrwymo i dalu iawndal am unrhyw niwed a achoswyd gan y drosedd neu gamymddwyn;
- (b) ei fod wedi egluro'r ffeithiau a'r amgylchiadau mewn modd cynhwysfawr drwy gydweithredu â'r awdurdodau ymchwilio;
- (c) ei fod wedi cymryd camau technegol, sefydliadol a phersonél cadarn sy'n briodol i atal rhagor o droseddau neu gamymddwyn.

Caiff y camau hyn eu gwerthuso gan ystyried difrifoldeb ac amgylchiadau penodol y drosedd neu gamymddwyn. Os na fydd yr awdurdod contractio o'r farn bod camau o'r fath yn ddigonol, rhaid iddo roi'r rhesymau dros benderfynu hynny i'r gweithredwr economaidd.

Yn ôl Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (Rheoliad 57 (12)), gall gweithredwr economaidd gael ei wahardd, am un o'r rhesymau dros wahardd yn ôl disgrisiwn, 3 blynedd o'r digwyddiad perthnasol.

Ni ellir gwahardd gweithredwr economaidd am nad yw wedi ymddiheuro am gosbrestru. Efallai y bydd rhywfaint o le i ystyried p'un a yw peidio ag ymddiheuro neu gyhoeddi datganiad edifeirwch yn arwydd o hunan-lanhau annigonol, ond rhaid ystyried hyn yn ofalus fesul achos.

### **Pa fath o wybodaeth y gall awdurdodau contractio ofyn amdani?**

Mae Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn caniatáu i awdurdod contractio ofyn cwestiynau am gosbrestru i weithredwyr economaidd ar gam dethol y broses gaffael. Yn y SQuID (Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr), gofynnir i weithredwyr economaidd nodi a gafwyd eu bod wedi cosbrestru yn y tair blynedd diwethaf ac, os felly, gynnwys manylion yn amlinellu'r amgylchiadau, gan gynnwys y camau a gymerwyd ers hynny i unioni'r sefyllfa.

Os bydd llys neu dribiwnlys wedi canfod hynny, byddai hefyd yn rhesymol gofyn am fanylion y dyfarniad a faint o iawndal a roddwyd.

### **A all awdurdodau contractio derfynu contractau gyda gweithredwr economaidd sydd wedi cosbrestru neu sydd yn gwneud hynny?**

Nid oes hawl awtomatig i derfynu contract lle mae gweithredwr economaidd wedi cosbrestru neu yn gwneud hynny. Bydd gallu awdurdod contractio i weithredu yn dibynnu ar union eiriad telerau'r contract a pha mor berthnasol yw'r cosbrestru i'r contract. O ran contractau cyhoeddus newydd, efallai y bydd awdurdodau contractio am ystyried p'un a ddylid diwygio eu telerau ac amodau contract cyfredol i gynnwys hawl i derfynu'r contract lle mae gweithredwr economaidd yn cosbrestru.

Dylai'r camau a gymerir o dan delerau contract gael eu hystyried fesul achos a dylid ceisio cyngor cyfreithiol.



## 6. Canllawiau ac Adnoddau

Ymhlith rhai o'r dogfennau canllaw polisi ac adnoddau ategol sydd ar gael i chi eu defnyddio wrth gaffael (yn nhrefn yr wyddor) mae'r canlynol:

- Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau – BIS Guidance on Blacklisting (Mawrth 2010)
- Canllaw Cynllunio Caffael (CCC).

Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID), Gwerth Cymru

<http://prp.gov.wales/toolkit/?skip=1&lang=cy>

Asesiad Risg Cynaliadwy (ARC), Gwerth Cymru

<http://prp.gov.wales/toolkit/?skip=1&lang=cy>

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch neu os ydych wedi dod ar draws cosbrestru wrth gaffael, cysylltwch â:

Gwerth Cymru: [vwpolicy@wales.gsi.gov.uk](mailto:vwpolicy@wales.gsi.gov.uk)

## 7. Cydnabyddiaethau

Mae Gwerth Cymru yn falch o gydnabod ei fod wedi troi at y cyhoeddiadau a'r sefydliadau canlynol er mwyn ategu ei ymchwil ei hun wrth lunio'r nodyn hwn:

- Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau
- Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015

- Deddf Diogelu Data 1998
- Deddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992
- Rheoliadau Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999 (Cosbrestrau) 2010